

## newyddion Cymraeg ColegauCymru #177 16 Mawrth 2015

**Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.**

**Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.**

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. [Cysylltwch](#) da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

### Adnoddau

#### CaMDA: Cam Mawr Ymlaen o ran Sgiliau a Hyfforddiant yn Ne Gwynedd

Mae'r dyfodol yn ddisglair o ran sgiliau a hyfforddiant yn ne Gwynedd yn dilyn agoriad swyddogol CaMDA yr wythnos diwethaf.

Canolfan Adeiladu a Pheirianneg newydd gwerth £4.5 miliwn Grŵp Llandrillo Menai yw CaMDA, sydd wedi ei leoli ar safle Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau.

[Mwy>>>](#)

#### Buddsoddiad yng Nghanolfan Rhagoriaeth Hyfforddiant Gwaith Rheilffyrdd

Mae Coleg y Cymoedd ar fin sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Hyfforddiant Gwaith Rheilffyrdd ar gyfer prentisiaid yn Ne Ddwyrain Cymru ar ôl buddsoddiad o £3.1 miliwn yn ei adnodd gwaith rheilffyrdd.

Bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn yr adnodd gwaith rheilffyrdd yng Ngholeg y Cymoedd yn cynnwys ystafelloedd dosbarth newydd a chyfleusterau gweithdai hyfforddiant i gwrdd ag anghenion hyfforddiant peirianneg gwaith rheilffyrdd gyda phwyslais arbennig ar drydaneiddio.

[Mwy>>>](#)

#### Gweledigaeth 2020 – Coleg Sir Gâr yn buddsoddi yn Nysgwyr y Dyfodol

Mae Coleg Sir Gâr wedi lansio ei hwb dysgu gwerth £1.5 miliwn, sef parth dysgu cyfoes a gynlluniwyd yn arbennig i ddiwallu anghenion dysgu a chefnogi myfyrwyr y flwyddyn 2020, gyda'r adnoddau dysgu a'r dechnoleg ddigidol

ddiweddaraf.

[Mwy>>>](#)

---

## Colegau o Ansawdd

### Gwobr Ryngwladol

Mae Coleg y Cymoedd wedi ennill gwobr am ei waith rhyngwladol gyda myfyrwyr. Cyflwynwyd y wobr yn Seremoni Gwobrau Rhyngwladol a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Mileniwm.

Mae'r gwobrau blynyddol hyn yn cydnabod addysgu rhagorol gyda dimensiwn rhyngwladol yn ysgolion a cholegau Cymru. Trefnir y gwobrau gan British Council Cymru gyda nawdd Llywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Addysg y Cyngor Prydeinig Rhyngwladol.

[Mwy>>>](#)

---

### Gwobr farchnata i lyfrgell coleg

Derbyniodd dîm gwasanaethau llyfrgell Coleg Sir Gâr ganmoliaeth uchel yn y Gwobrau Rhagoriaeth Marchnata am ei ddefnydd arloesol o dechnoleg ac am fynd ati i hyrwyddo ei wasanaeth newydd i ddefnyddwyr y llyfrgell.

[Mwy>>>](#)

---

## Dilyniant

### Myfyrwyr yn llwyddo yn eu paratodau ar gyfer y Lluoedd Arfog

Mae tri myfyrwr sydd ar fin graddio o gwrs Paratoi ar gyfer y Lluoedd Arfog gyda Choleg Gŵyr Abertawe wedi llwyddo i gael eu derbyn i ymuno â'r Llynges Frenhinol.

[Mwy>>>](#)

---

## Llongyfarchiadau! Llwyddiant Staff a Myfyrwyr

### Llwyddiant yn Crufts i ddarlithydd Astudiaethau Anifeiliaid

Mae darlithydd mewn Astudiaethau Anifeiliaid yng Ngholeg Sir Gâr sydd hefyd yn nyrs milfeddygol, Nicola Hopkins, wedi ennill y drydedd wobr yn sioe Crufts eleni fel rhan o dim Cymru yn y gystadleuaeth ufudd-dod ryngranbarthol.

[Mwy>>>](#)

---

### Academi Rygbi yn ennill Tlws Cynghrair Colegau Elit Undeb Rygbi Cymru

Mae Academi Rygbi Coleg Gŵyr Abertawe wedi cipio Tlws Cynghrair Colegau Elit Undeb Rygbi Cymru ar ôl ennill pob un ond tair gêm eleni.

[Mwy>>>](#)

---

### Bwydlen o Fecsico yn ennill Cwpan Cogydd Ifanc y Flwyddyn

Mae Stephanie Emily Frances Liebenburg, myfyriwr Arlwyo a Lletygarwch 17 oed Coleg Menai - sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai - wedi ennill gwobr rhanbarthol Cogydd y Flwyddyn Clwb y Rotari a gynhaliwyd yng Ngholeg Cambria, Wrecsam, gan ennill lle yn Rownd Derfynol RIBI yng Ngholeg Hopwood, Rochdale, Manceision.

[Mwy>>>](#)

---

## **Myfyrwyr menter yn ennill Gwobr Ian Bennett**

Tîm o fyfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe enillodd Wobr Ian Bennett yn Rownd Derfynol yr Her Menter Fyd-eang yng Nghaerdydd yr wythnos ddiwethaf.

[Mwy>>>](#)

---

## **Un ar ddeg tim o bobl ifanc trwyddo i Rownd Derfynol Genedlaethol cystadleuaeth rheoli arian ledled y DU**

Timau'n cyrraedd Rownd Derfynol Genedlaethol yr Her Arian am Oes, cystadleuaeth rheoli arian a redir gan Grŵp Bancio Lloyds, gyda Colegau Cymru a Youth Cymru.

[Mwy>>>](#)

---

## **Ffocws ar Gystadleuaeth Sgiliau Cymru**

### **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: Peirianeg**

Enillodd myfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai gyfres o wobrau yng nghystadlaethau Melino a Thurnio, Cystadleuaeth Sgiliau Cymru fis diwethaf.

Connor Jakubiec, myfyrwyr yng nghanolfan newydd CaMDA Dolgellau, ddaeth yn gyntaf ar y peiriant melino, gyda Mason Hughes o Goleg Menai yn drydydd.

Daeth Rheinallt Hedd o Goleg Menai yn ail yn y gystadleuaeth durnio, a Luke Burton o Goleg Llandrillo yn drydydd.

[Mwy>>>](#)

---

### **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: Gwaith Saer**

Yn dod i'r brig yng nghystadlaeth ranbarthol de Cymru Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yng gnwaith saer oedd myfyriwr o Goleg Sir Gâr, Thornton Boswell.

[Mwy>>>](#)

---

### **Cystadleuaeth Sgiliau Cymru: Pâtisserie**

Myfyrwraig Arlwyo Coleg Gŵyr Abertawe, Charlotte Walker, enillodd y wobr Arian yn rownd derfynol coginio Pâtisserie Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.

[Mwy>>>](#)

---

## Colegau yn eu Cymunedau

### Cefnogi mudiad cymorth lleol gyda sgiliau

Mae myfyrwyr tecstilau o Grŵp o Golegau NPTC yn rhoi eu hamser cinio i uwch-gylchu eitemau i'w gwerthu ar ran Cymorth Menywod Port Talbot ac Afan Merched (PTAWA).

[Mwy>>>](#)

### Adeiladu cysylltiadau ffermio Ewropeaidd

Croesawodd campws y Gelli Aur Coleg Sir Gâr ymweliad yn ddiweddar gan goleg amaethyddol MFR Les Dronières yn Ffrainc yn y gobaith o gadarnhau lleoliadau myfyrwyr.

[Mwy>>>](#)

## Dathlu Wythnos Prentisiaethau

### Wythnos Prentisiaethau: cyflwyno disgyblion ysgol i brentisiaethau

Cynhaliodd Coleg Ceredigion weithdy undydd i ddisgyblion ysgol roi cynnig ar sgiliau Adeiladwaith.

[Mwy>>>](#)

### Gwobrau Blynyddol y Cynghrair Sgiliau o Ansawdd yn dathlu cyflawniad prentisiaeth

Dathlwyd gwaith caled ac ymroddiad 13 o'r prentisiaid gorau sy'n gweithio yng Nghymru mewn seremoni wobrwyo arbennig yn amgylchedd ysblennydd yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd.

Hwn oedd y seremoni Gwobrau Blynyddol cyntaf erioed gan y Cynghrair Sgiliau o Ansawdd (QSA) - consortiwm o ddarparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cynnwys 24 o bartneriaid ac isgcontractwyr.

[Mwy>>>](#)

### Coleg Merthyr Tudful yn Dathlu Llwyddiannau Prentisiaid

Yn benllanw i weithgareddau niferus Coleg Merthyr Tudful ar gyfer Wythnos Prentisiaethau oedd seremoni wobrwyo i ddathlu cyflawniad dysgwyr yn y gwaith y coleg ac hefyd y cwmnïau hynny sy'n buddsoddi mewn prentisiaid.

[Mwy>>>](#)

## Cyfleoedd Dysgu

### Myfyrwyr Gwleidyddiaeth yn cwrdd ag ymgeisydd Seneddol

Mae myfyrwyr o Gymdeithas Wleidyddiaeth Coleg Gwent, Campws Crosskeys, wedi cael cyfle i gyflwyno eu barn ac i gwestiynu Ruth Jones, ymgeisydd seneddol Llafur dros Fynwy yn ystod ei hymweliad diweddar â'r coleg.

[Mwy>>>](#)

### Myfyrwr yn Helpu Dathlu 750 Mlynedd o Senedd

Diolch i'w waith gyda Senedd Ieuenctid y DU (UKYP), cafodd myfyriwr y Bagloriaeth Ryngwladol o Grŵp Llandrillo Menai, Ted Simonds, wahoddiad i ymuno a 40 aelod o ddau Dŷ'r Senedd, oedd yn cynrychioli'r DU gyfan, mewn digwyddiad arbennig i goffau 750fed pen-blwydd y senedd.

[Mwy>>>](#)

---

## **Myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro yn dysgu sut mae creu ap**

Mae myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cael hyfforddiant a chynghor ar sut mae creu a marchnata eu ap eu hunain ar gyfer ffonau clyfar.

[Mwy>>>](#)

---

---

**ColegauCymru**, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB  
**CollegesWales**, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB